CYNGOR CYMUNED LLANELLTYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU
COFNODION CYFARFOD MEHEFIN 13, 2023

www.cyngorllanelltyd.cymru

**Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanelltyd, Taicynhaeaf a Bontddu a gynhaliwyd yn Neuadd Bentref, Llanelltyd**
**Nos Fawrth, Mehefin 13, 2023 am 7.30 o'r gloch.**

**Presennol:** Cynghorwyr: Gareth Ellis, Llinos Rowlands, Llinos Williams, Geraint Rowlands, Elfed ap Gomer ac Eleri Jones. Hefyd Henry M. Edwards.

**1. Ymddiheuriadau:** Cyng Delyth Lloyd Griffiths, Simon Evans.

Yn absenoldeb Simon Evans (Cadeirydd) cadeirwyd y cyfarfod gan Gareth Ellis (Is-gadeirydd).

**2. Datgan diddordeb:**

Doedd neb yn datgan diddordeb.

**3. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Mai 9, 2023**

Cynigwyd y cofnodion gan Elfed ap Gomer ac eilwyd gan Llinos Williams .

**4. Materion yn codi o'r cyfarfod Mai 9, 2023**

Eitem 12.ch. Roedd y Clerc yn fodlon barhau yn y swydd ond gofynnwyd i'r aelodau i gael Clerc newydd.

**5. Materion Ariannol**

a. Costau'r Clerc am y cyfnod Ebrill 1, 2022 – Mawrth 31, 2023.

Swm am: stampiau + papur +amlenni + inc = £732.97. (Llynedd roedd y costau yn £528.69).

Penderfynwyd talu'r swm.

b. Rhoddwyd i'r aelodau gopi o Gyllideb y Cyngor am 2023-2024.

Roedd yr aelodau yn fodlon gyda'i chynwys.

c. Rhoddwyd i'r aelodau ffurflen i arwyddo yn rhoi gwybod nid ydynt am dderbyn lwfans o £150 ar gyfer y flwyddyn ariannol yn diweddu ar 31 Mawrth 2024.

Arwyddodd yr aelodau'r ffurflen.

ch. Derbyniwyd (31/5/2023) £114 oddi wrth I.B. Williams a'i Fab at ail osod beddfaen ar y diweddar Alison Maeve Hall

d. Balans yn y banc ar 29/5/2023: £11,008.28. (29/5/2022: £11,498.83).

**6. Archwilio**

a. Llythyr (23/5/2023) oddi wrth Archwiliwr Mewnol gyda dogfen 'Y pecyn cymorth cyllid a llywodraethu ar gyfer cynghorau cymuned a thref'.

b. Derbyniwyd (25/5/2023) yr Adroddiad Archwiliad Mewnol. Anfonwyd yr adroddiad i'r aelodau yn 25/5/2023.

O'r adroddiad nodwyd:

1. Methiant i dderbyn cadarnhad unigol gan Aelodau eu bod yn gwrthod taliad lwfans.

O'r cofnodion Mawrth 2022 roedd yr Archwiliwr yn holi anfonodd yr aelodau lythyr i'r Clerc yn rhoi gwybod nad oeddynt am dderbyn y taliad £150.

Rhoddwyd gwybod iddo dderbyniwyd tri llythyr gan yr aelodau yn dweud nid oeddynt yn derbyn y taliad. (Daeth gweddill o'r llythyrau i'r golwg yn ddiweddarach mewn amlen).

Rhoddwyd gwybod iddo ni dderbyniodd yr aelodau y taliad ac nid oedd yr aelodau angen y taliad.

2. Methiant i gyhoeddi Adroddiad Blynyddol, Adroddiad Bioamrywiaeth a Chynllun Hyfforddiant Aelodau.

Derbyniwyd gan yr Archwiliwr gopi o'r adroddiadau roedd Cyngor Tref Criccieth wedi eu gwneud i ddangos beth mae'r adroddiadau yn eu cynnwys.

Anfonwyd yr adroddiadau i'r aelodau.

Penderfynwyd addasu adroddiadau Cyngor Tref Criccieth i ein defnydd.

3. Methiant i dderbyn dyfynbrisiau am wariant dros drothwy penodol ym mhob achos, yn unol â'r Rheoliadau Ariannol.

Roedd yr Archwiliwr yn cyfeirio at daliadau gwneuthwyd i Gwasanaethau Tir a Choed (£2,073.60) ac i A.M. Ashton (£1,382.00). Roedd yn gofyn ddaru'r Clerc trefnu cael 3 dyfynbris am y gwaith yn unol ag amod 11.1.g o'r Rheoliadau Ariannol – "Pan fwriedir gwneud contract gwerth llai na £3,000 ar gyfer cyflenwi nwyddau neu ddeunyddiau neu gyflawni gwaith neu wasanaethau arbenigol ac eithrio'r nwyddau, deunyddiau, gwaith neu wasanaethau arbenigol a eithrir fel y nodir ym mharagraff (a) bydd y Clerc yn trefnu cael tri dyfynbris i wneud y gwaith''.

Rhoddwyd gwybod i'r Archwiliwr:

a. Cyn i Gwasanaeth Tir a Choed gwneud y gwaith i'r Cyngor (ac roedd hynny yn 2018) roedd y gwaith yn cael ei wneud gan Mr I.W. Thompson am flynyddoedd ac yn parhau i wneud y gwaith gyda Gwasanaeth Tir a Choed.

b. Mae Mr A.M. Ashton wedi gwneud gwaith i'r Cyngor ers 2017. Derbyniwyd tri dyfynbris i wneud y gwaith.

Penderfynwyd gofyn i Gwasanaeth Tir a Choed ac A.M. Ashton i gyflwyno eu biliau mewn dau neu mwy o rannau ac nid mewn un bil am y flwyddyn i gydymffurfio ag amod 11.1.g o'r Rheoliadau Ariannol.

4. Rhoddwyd gwybod i'r Archwiliwr mae'r Cyngor yn caniatáu Aelodau a'r cyhoedd i gael mynediad ar-lein (Teams, Zoom ayb) i gyfarfodydd y Cyngor yn unol â phennod 5 o Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

(Roedd yn anghywir i ddweud hyn. Nid oes gan y Cyngor cyfleusterau i fod ar-lein).

c. Anfonwyd (1/6/2023) dogfennau oedd eu hangen i Archwiliwr Allanol, Archwilio Cymru. (Anfonwyd y dogfennau i'r cyfeiriad anghywir ond wedi gwneud ymoliadau â hwy roeddynt wedi eu derbyn).

ch. Llythyr (30/5/2023) oddi wrth Archwilio Cymru gyda hysbysiad Archwilio 2022-2023.

Erbyn Mehefin 18 2023 bydd angen cyhoeddi'r hysbysiad archwilio ar yr hysbysfyrddau ac ar ein gwefan am 14 diwrnod. Wedi'r 14 diwrnod mae angen gwneud trefniadau i'r cyhoedd archwilio'r dogfennau am 20 diwrnod rhwng Gorffennaf 3 a Gorffennaf 28 2023.

Penderfynwyd cyhoeddi'r hysbysiad fel mae angen.

**7. Mynwent Llanelltyd**

a. Llythyr (5/5/2023) oddi wrth Comisiwn Rhyfel Beddi'r Gymanwlad. Maent yn gwneud gwaith o lanhau cofebion y wlad i goffau lluoedd arfog y Gymanwlad ddaru syrthio yn ystod y ddau ryfel byd.

Maent angen gosod arwydd bach ar gat y fynwent i roi gwybod mae beddi rhyfel yn y fynwent.

Penderfynwyd cael arwydd (yn ddwy iaith) a'i leoli ar y giat sydd wrth derfyn yr Eglwys.

b. Bil (19/5/2023) am £412.00 oddi wrth Cyngor Gwynedd am gasglu gwastraff masnachol am y cyfnod 1/4/2023 – 31/3/2024.

Cytunwyd telerau'r gwasanaeth yn gofnodion Ebrill 11, 2023 eitem 8.a.

Penderfynwyd talu'r bil.

**8. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri**

a. Llythyr (22/5/2023) yn gofyn am enw aelod sydd am ymuno cyfarfod ynglŷn ag Adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol bydd yn cymryd lle ar Zoom ar nos Iau, Mehefin 8, 2023 am 7:30 y.h.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

Roedd Geraint yn bresennol yn y cyfarfod. Maent am sefydlu Fforwm gydag aelod o'r cynghorau yn bresennol. Byddant yn cysylltu â'r aelodau ac nid trwy'r Clerc.

b. Llythyr (7/6/2023) yn rhoi gwybod am hyfforddiant ar 'Gwella effeithlonrwydd ynni adeiladau traddodiadol' bydd yn cymryd lle yn Natural Building Centre, Llanrwst. Mae manylion ar https://eryri.llyw.cymru/product/gwella-effeithlonrwydd-ynni-adeiladau-traddodiadol/

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

Anfonwyd llythyr (11/6/2023) iddynt yn rhoi gwybod doedd dim ragor o le i fod yn bresennol yn yr hyfforddiant (roedd Geraint am fod yn bresennol), ac roedd hysbysiad am yr hyfforddiant yn fyr-rybudd. Gofynnwyd iddynt drefnu diwrnod arall ar yr hyfforddiant.

**9. Gohebiaeth**

a. Llythyr (11/5/2023) oddi wrth Un Llais Cymru yn cynnwys dogfen 'Good Councillor's Guide to Employment'.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

b. Llythyr (12/6/2023) oddi wrth Un Llais Cymru gyda chopi o 'Model Reolau Sefydlog 2003 (Cymru)'.

c. Llythyr (22/5/2023) oddi wrth Un Llais Cymru yn cynwys 5 dogfen ar Bioamrywiaeth: (Holwyd am y wybodaeth).

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

ch. Llythyr (23/5/2023) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi dyddiadau hyfforddiant am fis Mai a Mehefin.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

d. Llythyr (25/5/2023) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod am Cynhadledd Arfer Arloesol Un Llais Cymru bydd yn cael ei gynnal ar Faes y Sioe Amaethyddol ar ddydd Mercher, 5 Gorffennaf.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

dd. Llythyr (31/5/2023) oddi wrth Rhannu Cartref, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod am gynllun newydd Rhannu Cartref.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

e. Llythyr (25/5/2023) oddi wrth Adran Priffyrdd yn rhoi gwybod am y gwaith bydd yr Adran yn ei wneud ym mis Mehefin:

1. Amnewid postyn giat ar lwybr 21 sydd wrth Bro Cymer.
2. Bydd Tim Tacluso Ardal Ni yn gwneud gwaith yn Llanelltyd (12-16/6/2023).

<u>Penderfynwyd</u> i Eleri Jones cysylltu â Tim Tacluso Ardal Ni i roi gwybod iddynt mae angen tocio coed sy'n tyfu ar ochr y pafin rhwng yr Hen Ysgol a'r Gerddi.

f. Llythyr (5/6/2023) oddi wrth Llywodraeth Cymru yn rhoi gwybod mae gwybodaeth am gynghorau cymuned a thref yn cael eu cadw yn eu cronfa data o dan y ddeddfwriaeth diogelu data.

ff. Llythyr (5/6/2023) oddi wrth Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod bydd Cronfeydd Cefnogi Adfywio, Cefnogi Diwylliant, Digwyddiadau, Byw'n Iach ac Actif UKSPF Gwynedd yn gwahodd datganiadau o ddiddordeb gan sefydliadau ar gyfer prosiectau fydd yn gwella ansawdd bywyd trigolion a chymunedau'r Sir, ar sail cyflwyno ceisiadau trwy <u>Cronfeydd Cefnogi (SPF) (llyw.cymru)</u>
Mae'r Cronfeydd yn croesawu ceisiadau gan Gynghorau Cymuned a Thref. Dyddiad cau i geisiadau Gorffennaf 14 2023.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

g. Llythyr (6/6/2023) oddi wrth Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (trwy Un Llais Cymru) gyda manylion am y newid 30mya i 20mya ar draws Cymru bydd yn dod i rym o fis Medi 17, 2023.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

 Llofnod: Dyddiad:

i. Llythyr (7/6/2023) oddi wrth Un Llais Cymru – Bwletin Newyddion. Maent yn rhoi gwybod rmae angen gwneud Aroddiad Blynyddol, Cynllun Hyfforddiant Cyfarfod Hybrid (mynediad i'r cyhoedd i ein cyfarfodydd). Mae rhain eu hangen dan 'Dyddiadau cau Gofynion Cyfreithiol o dan Ddeddf Llywodraeth Leol a Democratiaeth (Cymru) 2021). Rhaid i gynghorau adrodd ar Fioamrywiaeth o dan adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 Rhan 1. Gweler Eitem 6.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

j. Llythyr (8/6/2023) oddi wrth Gwasanaeth Cyfreithiol, Cyngor Gwynedd gyda manylion 'Gorchymyn Cyngor Gwynedd, Cyfyngu aros a mannau parcio ar y stryd a dirymu (Ardal Meirionnydd (Rhif 10 )) 2023'. Amgáu mae Gorchymyn Drafft, y Rhybudd 1af a'r Rhesymau dros fwriad y Cyngor i wneud y Gorchymyn.
Maent yn rhoi gwybod os mae sylwadau neu wrthwynebiad i'r Gorchymyn arfaethedig, dylid eu hanfon gyda rhesymau i KarenElizabethFraserDuggan@gwynedd.llyw.cymru cyn Gorffennaf 12, 2023.
Yn cynwys ar y rhestr mae cyffordd wrth yr Hen Swyddfa Bost, Bontddu.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

**10. Adroddiad Cynghorydd Delyth Lloyd Griffiths**

a. Llythyr (12/5/2023) oddi wrth Christie & Co yn rhoi gwybod mae eiddo a safle Bontddu Hall yn saff.

Llythyr ateb (10/6/2023) oddi wrth Y.S. Tong / Bontddu Hall. Mae angen manylion y lladron a'r ymwthwyr torodd i fewn i'r adeilad.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

b. Llythyr (5/6/2023) yn rhoi manylion grantiau cyfalaf a refeniw ar gael i grwpiau cymunedol a gwirfoddol Gwynedd. Grantiau Cist Gwynedd.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

c. Adroddiad (10/62023):

1. Tîm Tacluso Adra wedi bod yn Fflatiau Swyn y Nant Bontddu
2. Cilfannau / laybys Bontddu - adborth wedi dod gan y Cyngor ac wedi ei anfon at Llinos Bontddu.
3. Bryn Melyn studios - arwyddion newydd wedi eu rhoi i fyny ond ddim i'w gweld yn dda oherwydd coeden. Cyngor di cael gwybod. Dim newid o ran cyflymdra ceir yn ôl trigolion sydd yn byw yn y tŷ.
3. 20 milltir yr awr Llanelltyd - ehangu ar y lleoliad yn y pentref - mater wedi mynd at Andrew Gregson.

 Llofnod: Dyddiad:

4. Llinellau melyn Bontddu, wrth yr Hen swyddfa Bost yn dod o fewn 1-3 mis. Trigolion lleol yn hapus iawn.
5. Coed Llanelltyd ym Maes y Garnedd - cyfarfod ar safle gen i 26/6/23 gyda Graham Jones Prif Reolwr Coed a Gwion Jones. Mae llawer o gwympo coed wedi mynd ymlaen yn ddiweddar gan gynnwys coed wrth ymyl Tŷ Mr a Mrs Cook.
6. Biniau Sbwriel hen bont Llanelltyd. Mae Tîm glanhau am wagio'r bin presennol yn rheolaidd - diolch i Peter Simpson yn y Cyngor.
7. Defibrillator Bontddu wedi cyrraedd ar ôl cyfraniad gan y Cyngor yma. Paul Williams yn trefnu gyda Kevin Williams fod y peiriant yn ei le.
8. Bontddu Hall - gweler yr ohebiaeth isod amharchus iawn gan gwmni gwerthu eiddo, Christies yn Llundain.
9. Dau fater cyfrinachol perthnasol i drigolion Bontddu yn mynd yn eu blaen a swyddogion y Cyngor yn rhoi cymorth addas.
10. Ceisiadau Grantiau Gwynedd - Neuaddau lleol (Bontddu), mudiadau gwirfoddol (Ti a fi) a busnesau lleol wedi cael gwybodaeth a thrafodaethau am grantiau Arfor ( Busnes) a Grantiau Gwynedd.
11. Er gwybodaeth-
· **Tudalen Timau Tacluso Ardal Ni ar y Fewnrwyd Aelodau -** Boed law neu hindda, mae’r Timau Tacluso newydd yn dod yn fwyfwy amlwg yn ein hardaloedd, wrth iddyn nhw gychwyn gwneud y pethau bychain hynny sy’n gwneud gwahaniaeth mawr. Gall eich Etholwyr wneud cais i dimau tacluso’r Cyngor trwy gysylltu â chwi fel eu Cynghorydd Lleol. Am wybodaeth ddefnyddiol am waith y Timau Tacluso mewn un lle hwylus i chi fel cynghorwyr, ewch i Tîm Tacluso 'Ardal Ni' Tidying Team (sharepoint.com) <https://cyngorgwynedd.sharepoint.com/sites/Mewnrwyd-Aelodau/SitePages/Tîm-Tacluso.aspx?e=4%3afc8df085c29444418adf2bc273dda959&web=1&at=9&cid=e53a1a92-1653-4711-bfef-5f4333f187c6>

Anfonwyd yr adroddiad i’r aelodau.

**11. Materion Brys**

a. Mae angen i’r aelodau gwblhau ffurflen ‘Datganiad Derbyn Swydd’ cynghorydd. Rhoddwyd copi o’r ‘Cod Ymddygiad’ i’r aelodau.

Cwblhawyd yr aelodau y ffurflen, a chawsant gopi o’r ‘Côd Ymddygiad ar gyfer aelodau’.

----------